Galw ar holl ffermwyr yr ucheldir!

LIFE a FWAG Cymru yn cynnal diwrnod arddangos yr orgors

Mae Project LIFE Gorgors Fyw Cymru, mewn cysylltiad â Grŵp Cynghori Ffermio a Chadwraeth Cymru (FWAG) yn cynnal cynhadledd a diwrnod arddangos i ffermwyr yr ucheldir er mwyn trafod dyfodol amaethu'r ucheldir a chynlluniau amaeth-amgylcheddol Cymru.

Agorir y gynhadledd gan Mick Bates AC, a'r cadeirydd fydd Alun Edwards, cadeirydd FWAG Cymru. Bydd Jon Westlake, sy'n arwain yr adolygiad o gynlluniau amaeth-amgylcheddol (megis Tir Mynydd, Tir Cynnal a Thir Gofal) ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn edrych ar ddyfodol rheolaeth amgylcheddol ar ffermydd Cymru gan ganolbwyntio'n arbennig ar garbon a rheolaeth dŵr.

Yn y prynhawn bydd cyfle i weld y peiriannau a ddefnyddir i adfer Gorgors LIFE, yn ogystal ag ymweliad i un o'r safleoedd adfer yn uchel ar dir mynydd a orchuddir gan rug ger Llyn Efyrnwy.

Cynhelir y digwyddiad yng Ngwesty Llyn Efyrnwy o 10 y bore hyd 4:30 y prynhawn ar ddydd Mawrth 9 Mehefin 2009 a bydd lluniaeth ar gael drwy gydol y dydd.

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiad cysylltwch â FWAG Cymru os gwelwch yn dda ar 01341 421456; cymru@fwag.org.uk neu ewch i wefan y Project LIFE ar www.gorgorscymru.org

FWAG
CYMRU

Life